# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 06-06

### Dyddiad y cyfarfod: 15 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 1.30pm – 4.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Dwyrain De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Jeremy Colman | Yr Archwilydd Cyffredinol |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Geraint Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| David Thomas | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

Tystion

| **Enw** | Teitl swydd |
|---|---|
| Dr Steve Marshall | Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Richard Hart | Pennaeth yr Is-adran Cynllunio a Chyllido, y Grwp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Rob Rogers | Pennaeth yr Is-adran Safonau, Ansawdd a Llywodraethu, y Grwp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Arwel Thomas | Pennaeth Gwasanaethau Gweithredol, Swyddfa'r Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Irene James. Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ei rhan.

## Eitem 2: Dysgu Seiliedig ar Waith - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Datganiadau Ariannol 2004-05
## Papur: AC(2) 06-06(p1)

2.1 Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Steve Marshall, Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Richard Hart, Pennaeth yr Is-adran Cynllunio ac Ariannu, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rob Rogers, Pennaeth yr Is-adran Safonau, Ansawdd a Llywodraethu, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arwel Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 3: Cynnydd yn y Sector Addysg Bellach: rheolaeth ystadau a chaffael**
**Papur: AC(2) 06-06(p2)**

3.1 Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Steve Marshall, Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Arwel Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried adroddiad pellach ar gynnydd yn y Sector Addysg Bellach: ystadau a rheolaeth, pan fydd yn briodol.

**Eitem 4: Darparu Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau yng Nghaerdydd**
**Papur: AC(2) 06-06(p3), AC(2) 06-06(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w adroddiad ar Ddarparu Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau yng Nghaerdydd a bu'n trafod cyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar hyn.

**Eitem 5: Gwarchod staff Ymddiriedolaethau'r GIG rhag trais ac ymosodiadau**
**Papur: AC(2) 06-06(p5), AC(2) 06-06(p6)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w adroddiad ar warchod staff Ymddiriedolaethau'r GIG rhag trais ac ymosodiadau a bu'n trafod cyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar hyn.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 05-06(mins)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2006.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi)

**Sesiwn Breifat**

**Eitem 7: Adroddiadau drafft y Pwyllgor Archwilio - Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH), y Gronfa Ysgolion Gwell a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yng Nghymru: adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir**

**Papur: AC(2) 06-06(p7), AC(2) 06-06(p8)**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y ddau adroddiad drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2006**